Cofnodion cyfarfod 12fed Gorffennaf 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Daniel Williams	Casi Roberts	
Mair Bebb Jones	Peter Simpson	
Aled Emyr	Gruff John	
George Smith		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan y cadeirydd i gyfarfod mis Gorffennaf. **Ymddiheuriadau**: Yasmin Khan, Nerys John, Miss Ashley, Iestyn Harris.	
2.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Peter Simpson eitem 7.5	
3.0	**COFNODION**	
3.1	Cyflwynwyd cofnodion 7fed o Fehefin 2016. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe eu harwyddwyd fel rhai cywir.**	
4.0	**MATERION YN CODI**	
4.1	**Hysbysfyrddau -** dim gwybodaeth bellach ynglŷn â dyddiad codi'r hysbysfyrddau. Y Clerc i gysylltu â Gareth Roberts ynglŷn â'r mater. Cafwyd gwybodaeth bod Menter Fachwen ar eu gwyliau ac efallai dyma pam nad oes gwybodaeth i law.	**CLERC**
4.2	**Afon Heulyn -** cafwyd gwybodaeth ynglŷn â'r sefyllfa bresennol gan y Clerc a hefyd roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwybodaeth oddi wrth Siân Gwenllïan Aelod Cynulliad dros Arfon. Mae'r cerrig wedi eu symud ond nid yw gwaith ar y wal wedi ei ddechrau; gan fod y wal wedi ei chofrestru mae ei thynnu i lawr neu ei lleihau yn fater i'r perchennog a CADW; Y Clerc i gysylltu â Swyddog Cadwraeth y Cyngor Sir.	**CLERC**
4.3	**Giatiau'r Doc -** mae'r mater yn derbyn sylw'r Swyddog Cadwraeth fel rhan o gais cynllunio'r pontoons.	**CLERC**
4.4	**Toiledau -** Dim gwybodaeth bellach ar y mater. Bydd Cyngor Gwynedd yn cadw'r Cyngor Cymuned yn hysbys o'r datblygiadau.	
5.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
5.1	Dywedodd y Cadeirydd bydd adroddiad Kimberley Gulf i ddilyn yn fuan ynghyd a lluniau a fyddai yn egluro'r sefyllfa'r tamprwydd yn well a'r dulliau sydd ar gael i gael gwared ohono. Bydd angen trafod a phensaer y gwaith grant y neuadd ynglŷn â tamprwydd mewn mannau o fewn y neuadd. Gofynnwyd hawl y Cyngor i drafod a Peter	**DW**

	Wray ynglŷn â'r mater hefyd oherwydd ei arbenigedd ac adeiladau cofrestredig. Rhoddwyd caniatâd i'r Cynghorydd drafod. Disgwylir bydd gwaith ar y to yn dechrau yn fuan.	
5.2	Trafodwyd defnydd o'r neuadd yn rhad ag am ddim gan elusennau. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn gofyn am gyfraniad yn unig gydag isaf pris o £25 gan bawb.	
5.3	Gobeithir tacluso'r Neuadd dros yr haf gan gynnwys ail osod llinellau'r cyrtiau badminton.	
6.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
	Cadarnhawyd gwariant mis Mehefin.	
6.2	Cyflwynwyd adroddiad ynglŷn â gwariant y cloc hyd yma mewn cyfrif atodol.	
6.3	Mae angen anfon ymlaen llythyr derbyn y grant gan CADW, bydd angen i'r clerc a swyddog ariannol y Cyngor ei arwyddo.	
7.0	**GOHEBIAETH**	
7.1	**Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd - Biniau Halen;** trafodwyd cynnwys y llythyr ynglŷn â chost llenwi'r biniau halen. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn gofyn am restr o'r biniau sydd yn y Felinheli ar hyn o bryd a hefyd i wneud ymholiad a chwmnïau halen.	**CLERC**
7.2	**Seminar Blynyddol -** Penderfynwyd bod modd anfon y ddau swyddog a dau aelod.	
7.3	**Asesiad effaith Ieithyddol annibynnol o'r Cynllun lleol ar y cyd -**	
7.4	**Ymgynghoriad ar ganllawiau cynllunio atodol ar gynllun datblygu lleol ar y cyd -** llenwi ffurflen ymateb.	
7.5	**Galwad agored - gwasanaethau anstatudol -** mae modd cyflwyno cais. Dywedodd y Clerc bod y fenter yn edrych a'r fenter i roi cymorth i nifer o gynghorau ar wasanaethau tebyg. Bydd y fenter yn rhedeg am sawl blwyddyn. Bydd fwy o wybodaeth yn dod maes o law.	
8.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Mae'r gwaith cynnal yn symud yn ei flaen a bydd wedi ei gwblhau yn fuan ym mis Medi. Mae gwaith trydanol wedi gorfod ei wneud ar gost o £350 oherwydd effaith glaw.	
9.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
9.1	C16/0597/20/LL - Codi tŷ annedd tri llawr newydd - tir ger Sŵn y Fenai Brynffynnon, Y Felinheli LL56 2SJ -**GWRTHWYNEBU** Mae'r problemau parcio a thraffig yn yr ardal yn barod a byddai caniatáu'r datblygiad yn cynyddu'r broblem.	

	C16/0724/20/AM - cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl i godi 11 tŷ newydd, creu mynedfa gerbydol newydd a ffordd stad, darparu tir agored cyhoeddus - tir ger Canolfan Iechyd, Ffordd Glan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RX - **GWRTHWYNEBU** Mae'r Cyngor eisoes wedi cyflwyno sylwadau ar gais tebyg. Nid yw'r Cyngor am weld fwy o dir gwyrdd y pentref yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygu. Nid yw'r ardal o fewn yr ardal lle caniateir adeiladau.	
10.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
10.1	Dim yw'r adrodd ar hyn y bryd. Gwaith torri gwair yn parhau yn fisol.	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
11.1	Dywedodd y Cadeirydd bod ef a 'r Cynghorydd Peter Simpson wedi dod i gasgliad bod cyflwyno fwy o lafant ar y llethrau yn mynd i helpu a'r llithriadau'r llechi. Gan fod arian wedi ei ddynodi ar gyfer gwaith ar safle a bod dim angen gwneud cais ychwanegol i'r perwyl yma.	**DW PJS**
11.2	Derbyniwyd gwybodaeth bod angen glanhau'r maes parcio; y Cadeirydd i wneud trefniadau.	**DW**
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Gofynnwyd os byddai modd cael gwirfoddolwyr i lanhau'r safleoedd bysiau.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim	
15.0	**GWEFAN**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:55	
Llofnod:		Dyddiad: